



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

FFURFLEN K

CAIS I YMUNO Â'R CYNLLUN TALU - CEISIADAU
HEPATITIS C CAM I CRONIG NEWYDD SYDD
HEFYD YN CYNWYS HEPATITIS C
DATBLYGEDIG CAM II

ADRAN 1(A)

DIOGELU DATA A DATGANIAD YR YMGEISYDD



Ticiwch y blwch i gadarnhau

☐

Rwy'n deall y gall y data rwy'n eu darparu gael eu rhannu â darparwyr gwasanaethau GIG Cymru a Gwasanaethau Gwrth-dwyll er mwyn sicrhau y caiff taliadau eu gwneud yn gywir ac yn brydlon, ac at ddibenion atal a datgelu troseddau ac ymchwilio iddynt

DATGANIAD GAN YR YMGEISYDD

Rwy'n cytuno bod y wybodaeth a roddaf ar y ffurflen hon yn gyflawn ac yn gywir

Rwy'n cytuno i ad-dalu unrhyw arian rwyf wedi ei dderbyn os canfyddir nad oedd gennyf hawl iddo.

Rwy'n deall y gallwn gael fy erlyn am roi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn yn fwriadol

Nid wyf wedi derbyn taliad gan unrhyw gynllun arall yn y DU oherwydd fy haint Hepatitis C.

Rwy'n cydsynio i GIG Cymru gael unrhyw ddata a gedwir amdanaf gan Gronfa Skipton neu Sefydliad Caxton, a hynny at ddibenion darparu cymorth ariannol imi.

Rwy'n deall y gall fod angen ar GIG Cymru weld data a gedwir amdanaf gan gyrff cyhoeddus eraill a/neu wneud ymholiadau ychwanegol i gyrff cyhoeddus eraill fel y bo'n angenrheidiol er mwyn dod i benderfyniad ar fy nghais.

Llofnod yr
Ymgeisydd

Dyddiad

SUT RYDYM NI'N DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH

Bydd y wybodaeth y byddwch chi'n ei darparu ar y ffurflen hon ond yn cael ei defnyddio gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre at ddibenion gwirio'ch hawl i daliad a gweinyddu'ch cais. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon i weithiwr meddygol proffesiynol, rydych chi'n cydsynio i'ch manylion meddygol, y gofynnir amdanynt yn Adrannau 2-11, gael eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Felindre at ddibenion gweinyddu'ch cais.

Os bydd anghydfod yn ymwneud â'ch hawl i daliad, mae'n bosibl y caiff eich gwybodaeth ei datgelu i'r Panel Apeliadau. Os caiff ei farnu nad yw'ch cais yn gymwys, mae'n bosibl y bydd Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cadw'ch ffurflen gais ar ffeil fel bod gennym ni gofnod hanesyddol llawn rhag ofn y byddwch chi'n cyflwyno apêl neu'n gwneud cais am daliad eto yn ddiweddarach. P'un bynnag, caiff gwybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi ei chadw at y dibenion y cafodd ei chasglu a chaiff ei chadw am o leiaf chwe mlynedd.

Caiff eich gwybodaeth chi ei chadw yn gwbl gyfrinachol a chaiff ei chadw mewn modd diogel yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, ac ni chaiff ei rhannu ag unrhyw sefydliad arall. Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn rheolydd data o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r wybodaeth rydym ni'n ei chasglu amdanoch chi. Rydym ni wedi rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am ein gweithgarwch prosesu data, a Z5021900 yw ein rhif cofrestru.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ddefnydd eich gwybodaeth, neu unrhyw bryderon am sut mae'ch gwybodaeth yn cael ei phrosesu, neu os ydych chi'n dymuno cael copi o'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi, cysylltwch â ni trwy ysgrifennu i Ganolfan Ganser Felindre, Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2TL

ADRAN 1 (B)

MANYLION AM Y CAIS

Teitl		Enw cyntaf	
Enw(au) Canol		Cyfenw	
Enwau Blaenorol			
Cyfeiriad			
(Rhaid mai'ch prif gartref yw hwn)			
Cod Post		Ffôn	
Ffôn		Symudol	
Cartref			
Cyfeiriad e-bost		Dyddiad Geni:	
Rhif GIG		Rhif Yswiriant Gwladol	

Beth yw eich statws priodasol?

Ticiwch un dewis isod	✓
Yn briod	
Mewn Partneriaeth Sifil	
Gweddw	
Wedi ysgaru	
Wedi gwahanu	
Sengl	
Yn byw gyda phartner	

Ydych chi erioed wedi gwneud cais i unrhyw un o gynlluniau'r DU (e.e. Cronfa Skipton) i dderbyn taliadau mewn perthynas â'ch haint Hepatitis C?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os 'ydw', nodwch beth oedd canlyniad eich cais

SECTION 1 (C)

MANYLION YCHWANEGOL AM Y CAIS

Ydych chi'n credu y cawsoch chi eich heintio gan Hepatitis C yn sgil triniaeth a dderbynioch chi gyda chynhyrchion gwaed, gwaed neu feinwe'r GIG?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os 'ydych chi', darparwch gymaint o wybodaeth ag y gallwch chi am sut a phryd rydych chi'n credu y digwyddodd yr haint.

Neu, ydych chi'n credu y cawsoch chi eich heintio â Hepatitis C ar ôl i rywun arall drosglwyddo'r firws ichi, ac roedd y person hwn wedi ei heintio yn sgil triniaeth gyda chynhyrchion gwaed, meinwe neu waed y GIG?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os 'nac ydyw', mae'r adran hon wedi ei chwblhau. Os 'ydych chi', rhowch ragor o fanylion isod.

Sut y digwyddodd yr haint yn eich barn chi?

Gan bwy yn eich barn chi y cawsoch chi'r haint hwn?

Teitl		Enw cyntaf	
Enw(au) Canol		Cyfenw	
Cyfeiriad			
		Cod cost	

Beth yw/oedd eich perthynas â'r person hwn?

PREIFAT A CHYFRINACHOL

Ydy erioed wedi cofrestru ar gynlluniau cymorth yng Nghymru

neu'r DU?

Ydy

☐

Nac ydy

☐

Ddim yn
gwybod

☐

Os ydych chi'n gwybod, nodwch ba
gynllun(iau)

ADRAN 1 (D)

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech chi ei rhoi, ychwanegwch hi yma:

Ar ôl ichi gwblhau pob rhan o Adran 1, rhwch y ffurflen i weithiwr meddygol proffesiynol iddo ei chwblhau.

Bydd y gweithiwr meddygol proffesiynol yn cwblhau gweddill y ffurflen ac yn ei dychwelyd yn uniongyrchol i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru ar eich rhan.

Tudalen 5 o 26

RHAID I WEITHIWR IECHYD PROFESIONAL GWBLHAU'R ADRANNAU CANLYNOL

CANLLAWIAU I WEITHWYR MEDDYGOL PROFFESIYNOL

Diolch i chi am eich help gyda'r cais hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y ffurflen hon yn ymwneud â chlaf yr ydych chi'n ei adnabod ac yr oedd wedi ei heintio â Hepatitis C.

Dylid cwblhau Adrannau 2-5 y ffurflen hon ymhob achos. Nod yr adrannau hyn yw:

- Cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cael ei heintio â Hepatitis C Cronig ynghyd â
- Chadarnhau ei bod yn debygol bod yr haint wedi'i ddal yn sgil triniaeth gyda meinwe, cynhyrchion gwaed neu waed y GIG.

Os oes cwestiynau am ymgeisydd ar y ffurflen hon na allwch chi eu hateb, trafodwch â gweithwyr meddygol proffesiynol eraill sydd wedi trin yr ymgeisydd ac a fydd yn gallu darparu'r wybodaeth.

Mewn rhai achosion, bydd y ffurflen hon yn ymwneud â chlaf y cafodd ei heintio gan rywun sydd (neu a oedd) wedi ei heintio yn sgil triniaeth gan y GIG.

Dim ond os oedd yr ymgeisydd wedi datblygu un o'r canlynol y dylid cwblhau Adrannau 6-11.

- Sirosis
- Canser Sylfaenol yr Iau
- Lymffoma Cell-B nad yw'n Lymffoma Hodgkin neu
- wedi cael trawsblaniad iau, neu ar y rhestr aros i gael un

Os yw amgylchiadau'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf uchod, dylech chi gwblhau Adrannau 6-11 y ffurflen hon, ond dim ond os mai chi yw'r meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol am ofal yr ymgeisydd.

Y bwriad yw y caiff presenoldeb Sirosis ei asesu gan ddefnyddio naill ai ddata biopsi sy'n bodoli eisoes, neu gan ddefnyddio canlyniadau profion nad ydynt yn fewnwithiol. Ni ddylid cynnal biopsi o'r iau yn unswydd ar gyfer gwneud y cais hwn.

Ar ôl iddi gael ei chwblhau, dychwelwch y ffurflen hon ynghyd â phob dogfen berthnasol yn uniongyrchol i'r cyfeiriad canlynol:

Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru
Canolfan Ganser Felindre
Heol Felindre
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 2TL

NODIADAU YCHWANEGOL AM GYNLLUN ADRANNAU 6-11 AC AM SUT I'W CWBLHAU

Adran 6	Mae'r adran hon yn gofyn ichi a yw'r ymgeisydd wedi cael trawsblaniad iau, a yw'n aros am drawsblaniad neu a yw wedi datblygu Canser Sylfaenol yr iau. Os yw unrhyw un o'r amgylchiadau hyn yn berthnasol, nid oes angen cwblhau Adrannau 7-11.
Adran 7	Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am histoleg yr iau, os yw ar gael. Lle bo prawf histolegol o sirosis ar gael, nid oes rhaid cwblhau Adran 6 nac Adrannau 8-11.
Adran 8	Mae'r adran hon yn gofyn a yw'r ymgeisydd wedi datblygu Lymffoma Cell-B nad yw'n Lymffoma Hodgkin Os felly, nid oes rhaid cwblhau Adrannau 6-7 nac Adrannau 9-11.
Adran 9	Dylai'r adran hon gael ei chwblhau os nad oedd yr ymgeisydd erioed wedi cael biopsi o'r iau, neu os yw heb histoleg ddiweddar o'r iau. Mae'n gofyn i ddau fynegai syml gael eu cyfrifo, yn seiliedig ar brofion labordy y mae modd cael gafael arnynt yn hawdd, sydd wedi eu defnyddio i ragweld sirosis. Mae eisiau mesuriadau diweddar ailadroddadwy o ddau ensym o'r iau ar gyfer y mynegeion (rhaid bod llai na thri mis rhwng y ddau sampl), sef trosglwyddwyr amino aspartad (AST) a throsglwyddwyr amino alanin (ALT), ynghyd â nifer y platennau. Mae rhagor o wybodaeth am y mynegeion hyn ar y dudalen nesaf. O ran taliadau ar gyfer Hepatitis C Datblygedig, bydd APRI sy'n fwy na 2.0 neu'n gyfwerth ag ef ynghyd ag AST/ALT sy'n fwy na 1.0 neu'n gyfwerth ag ef yn dderbyniol fel tystiolaeth debygol o sirosis, a bwrw nad oes unrhyw ffactorau eraill ar wahân i ffibrosis sydd o bosibl yn effeithio ar y darlenniadau ar gyfer AST, ALT a'r platennau. Lle mae dau o'r mynegeion hyn yn gyfwerth â'r trothwy hwn neu'n uwch nag ef, a lle nad oes unrhyw ffactorau eraill ar wahân i ffibrosis sydd o bosibl yn effeithio ar y darlenniadau AST, ALT a phlatennau, yna nid oes rhaid cwblhau Adrannau 10-11.
Adran 10	Dylid cwblhau'r adran hon os yw cais yr ymgeisydd yn dibynnu ar sefydlu diagnosis o sirosis ac os nad yw'r ymgeisydd wedi cael biopsi'r iau (neu os nad yw cael un yn ddiweddar). Dylid ei chwblhau hefyd os nad yw'r mynegeion a ddefnyddiwyd yn Adran 9 wedi rhagweld sirosis, neu os oes ffactorau eraill ar wahân i ffibrosis sy'n dylanwadu ar y darlenniadau hyn. Nod yr adran hon yw cofnodi unrhyw wybodaeth sydd ar gael eisoes y gall fod o gymorth i'r Cynllun wrth benderfynu ar debygolrwydd sirosis. Gall hyn gynnwys canlyniadau elastograffeg fyrhoedlog (e.e. Fibroscan®).
Adran 11	Dylid cwblhau'r adran hon os yw'r ymgeisydd yn dibynnu ar wybodaeth a roddwyd yn Adran 10 i gefnogi'r cais. Ei nod yw casglu barn glinigol gyffredinol ynghylch a yw sirosis yn debygol ai peidio.

MYNEGEION

i. Cymhareb trosglwyddwyr amino aspartad (AST) a phlatennau (APRI)[†]

Mae'r mynegai hwn wedi ei ddatblygu i gynyddu effeithiau gwrthwynebol ffibrosis yr iau ar lefel trosglwyddwyr amino aspartad (AST) a nifer y platennau.

$$APRI = \frac{(AST/ULN) \times 100}{Platennau (10^9)/L}$$

Lle mae'r AST mewn Unedau Rhyngwladol fesul Litr (IU/L) a lle mae ULN yn cynrychioli "Upper Limit of Normal".

Er enghraifft, os oes gan glaf gyfrif platennau o 120×10^9 a lefel AST o 90 (ULN = 45), caiff yr APRI ei gyfrif fel a ganlyn:

$$APRI = \frac{(90/45) \times 100}{120} = \frac{2 \times 100}{120} = 1.67$$

[†]Wai C-T, Greenson JK, Fontana RJ, Lalbfleisch JD, Marrero JA, Conjeevaram HS, Lok AS-F. A simple noninvasive index can predict both significant fibrosis and cirrhosis with chronic hepatitis C. *Hepatology* 2003; 38: 518-526

ii. Indecs Mynegai cymhareb trosglwyddwyr amino aspartad (AST):trosglwyddwyr amino alanin (ALT) [‡]

Mae'r indecs yn seiliedig ar yr arsylwad fod lefelau AST yn cynyddu'n fwy na lefelau ALT wrth i glefyd cronig yr iau waethygu.

$$Ratio = \frac{AST}{ALT}$$

Lle caiff AST ac ALT eu mesur mewn Unedau Rhyngwladol fesul Litr

[‡]Giannini E, Risso D, Botta F, Choarbonello B *et al.* Validity and clinical utility of the aspartate aminotransferase-alanine aminotransferase ratio in assessing disease severity and prognosis in patients with hepatitis C virus related to chronic liver disease. *Arch Intern Med.* 2003; 163(2): 218-24.

ADRAN 2(A)

DATGANIAD Y GWEITHIWR MEDDYGOL PROFFESIYNOL



Ticiwch y blwch i gadarnhau

☐

Rwy'n deall y gall y data rwyf yn eu darparu gael eu rhannu â Gwasanaethau Gwrth-dwyll y GIG er mwyn sicrhau y caiff taliadau eu gwneud yn gywir ac at ddibenion atal a datgelu troseddau ac ymchwilio iddynt.

DATGANIAD GAN Y GWEITHIWR MEDDYGOL PROFFESIYNOL

Rwy'n cytuno bod y wybodaeth rwyf wedi ei rhoi yn Adrannau 2-11 y ffurflen hon yn gyflawn ac yn gywir.

Rwy'n deall y gallaf fod yn destun camau disgyblu a chael fy erlyn os byddaf yn rhoi neu'n cymeradwyo gwybodaeth anghywir neu anghyflawn yn fwriadol.

Llofnod y
Gweithiwr
Meddygol
proffesiynol

Dyddiad

ADRAN 2 (B)

MANYLION AM Y GWEITHIWR MEDDYGOL
PROFFESIYNOL SY’N CWBLHAU’R FFURFLEN

Rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol yr Ymarferydd Meddygol
Cofrestredig (os ydych chi’n ymarfer yn y DU)

Yn rhinwedd pa swydd ydych chi wedi cwblhau’r ffurflen hon? (e.e.
Meddyg Teulu, ymgynghorydd, ayyb)

Pa mor hir ydych chi wedi adnabod y person
y mae’r ffurflen hon yn berthnasol iddo?

Blynedd

Mis

Eich Manylion

Teitl

Enw cyntaf

Enw(au) Canol

Cyfenw

Cyfeiriad Ysbyty/
Meddygfa

Cod cost

Ffôn

Cyfeiriad e-bost

Os oeddech chi wedi trafod ag unrhyw weithwyr meddygol proffesiynol eraill i’ch helpu i gwblhau’r
ffurflen hon, rhoddwch eu manylion yma:

Oes unrhyw gofnodion sy'n awgrymu bod yr ymgeisydd wedi gwneud cais i gynllun arall yn y DU (e.e. Cronfa Skipton) i dderbyn taliadau mewn perthynas â'i haint Hepatitis C?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os 'oes', rhwch fanylion isod.

Ydy'r ymgeisydd erioed wedi cael prawf positif ar gyfer gwrthgyrff Hepatitis C?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os 'ydy', beth oedd dyddiad y diagnosis cyntaf?

Ydy'r ymgeisydd wedi cael prawf positif ar gyfer adwaith gadwynol polymeras (PCR) neu RNA?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os yw'r ymgeisydd wedi cael prawf negyddol ar gyfer PCR/RNA, ydy hyn o ganlyniad i driniaeth gyfredol ar gyfer Hepatitis C neu driniaeth a dderbyniwyd yn y gorffennol?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os yw'r ymgeisydd wedi cael prawf negyddol ar gyfer PCR/RNA, oes tystiolaeth radiolegol neu batholegol y cafodd ei heintio'n gronig ar ôl i gyfnod aciwt (h.y. chwe mis cyntaf) y salwch fynd heibio? (Byddai tystiolaeth radiolegol a phatholegol berthnasol yn cynnwys canlyniadau o brofion swyddogaeth yr iau o'r cyfnod cronig sy'n uwch, ystyriaeth flaenorol am driniaeth, histoleg iau neu radiotherapi, symptomau eraill o hepatitis cronig).

Oes ☐ Nac oes ☐

DARPARWCH GOPI O GOFNODION MEDDYGOL SY'N CADARNHAU POB UN O'R ATEBION YN ADRAN 3(A)

ADRAN 3(B)

CADARNHAU A DDALIWYD YR HAINT YN
ANUNIONGYRCHOL

Yn eich barn chi, ydy hi'n debygol y cafodd yr ymgeisydd ei heintio ar ôl i rywun arall drosglwyddo'r firws iddo, ac roedd y person hwnnw wedi ei heintio yn sgil triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed a meinwe'r GIG?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os 'ydy', a gafodd ei drosglwyddo:

- Trwy gyfathrach rywiol?
- Trwy ddod i gysylltiad â nodwydd ar ddamwain?
- Trwy gael ei drosglwyddo o'r fam i'w babi?
- Trwy ddull arall (nodwch sut)

Do	☐	Naddo	☐
Do	☐	Naddo	☐
Oes	☐	Nac oes	☐
Do	☐	Naddo	☐

**RHOWCH FANYLION A DARPARWCH GOPI O GANLYNIADAU PROFION SY'N
CADARNHAU PA GENOTEIP Y CAFODD YR YMGEISYDD EI HEINTIO AG EF**

Os mai 'Do' oedd yr ateb i unrhyw un o'r cwestiynau yn Adran 3(B), ewch i Adran 5(B)

ADRAN 4

DIM OND YN ACHOS POBL HEINTIEDIG SYDD Â HAEMOFFILIA NEU ANHWYLDERAU GWAEDU ERAILL A ETIFEDDWDYD NEU A GAFFAELWDYD Y DYLLID CWBLHAU'R ADRAN HON

Oes gan yr ymgeisydd, neu a yw'n gludydd, anhwylder gwaedu sydd wedi ei etifeddu neu ei gaffael? (e.e. Haemoffilia neu Glefyd Von Willebrand)?

Oes/Ydy

☐ Nac
oes/Nac
ydy

☐

Gafodd unrhyw un o'r rhain ei ddefnyddio i drin yr ymgeisydd cyn mis Medi 1991?

- Gwaed cyflawn neu rannau ohono (gan gynnwys platennau, celloedd coch, niwtroffilau ayyb).
- Cryoprecipitate*
- Plasma/Plasma Ffres wedi'i Rewi

Do

☐ Naddo

☐

Do

☐ Naddo

☐

Do

☐ Naddo

☐

Gafodd unrhyw un o'r rhain ei ddefnyddio i drin yr ymgeisydd cyn mis Medi 1991?

- Crynodiad Ffactor VIII
- Crynodiad Ffactor IX
- FEIBA
- DEFIX
- Fibrinogen*
- Crynodiad Ffactor Ceulad Arall

Do

☐ Naddo

☐

Do

☐ Naddo

☐

Do

☐ Naddo

☐

Do

☐ Naddo

☐

Do

☐ Naddo

☐

Do

☐ Naddo

☐

Os do, pa grynodiad?

Oedd unrhyw un o'r triniaethau uchod wedi cynnwys sawl dos? Oedd

☐ Nac oedd

☐

Nodwch faint o bob cynnyrch a ddefnyddiwyd.

Ym mha un o ysbytai'r GIG cyn mis Medi 1991 dderbyniodd yr ymgeisydd y cynhyrchion a restrir?

Os na ddefnyddiwyd yr un o'r cynhyrchion a restrir uchod i drin yr ymgeisydd cyn mis Medi 1991, ydych chi'n credu ei bod yn debygol y cafodd haint Hepatitis C yr ymgeisydd ei achosi gan driniaeth gyda gwaed neu gynhyrchion gwaed y GIG cyn mis Medi 1991?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os 'ydw', rhowch fanylion

DARPARWCH GOPI O'R COFNODION MEDDYGOL SY'N CADARNHAU'R ATEBION A RODDWDYD YN ADRAN 4.

Os yw Adran 4 wedi ei chwblhau ac mae'n debygol mai trallwysiad gwaed a achosodd haint yr ymgeisydd yn hytrach na chynhyrchion gwaed, cwblhewch Adran 5(A).

Fel arall, os yw Adran 4 wedi ei chwblhau, ewch yn syth i Adran 5(B)

ADRAN 5(A)

CADARNHAU EI BOD YN DEBYGOL BOD HAIT WEDI'I
DDAL TRWY DRINIAETH GAN Y GIG

Ar ba ddyddiad y credir i'r haint (e.e. trwy drallwysiad gwaed) gael ei ddal?

Ym mha un o ysbytai'r GIG neu ym mha gyfleuster arall y credir i'r haint gael ei ddal? (Os cafodd yr ymgeisydd fwy nag un trallwysiad gwaed neu drawsblaniad meinwe, rhestrwch bob ysbyty neu gyfleuster lle y cawsant eu cynnal)

Nodwch yr amgylchiadau y credir i'r haint gael ei ddal ynddynt (e.e. yn ystod triniaeth lawfeddygol, triniaeth yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, ayyb).

Oes unrhyw gofnodion o'r adeg y daliwyd yr haint neu o unrhyw symptomau o haint?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os 'oes', nodwch ba rai ac amgaewch gopi o'r cofnodion perthnasol.

Gafodd unrhyw un o'r rhain ei ddefnyddio i drin yr ymgeisydd cyn mis Medi 1991?

- Albwmin
- Imiwnoglobwlin Mewnwythiennol
- Plasma/Plasma Ffres wedi'i Rewi
- Môr Esgyrn
- Gwaed cyflawn neu rannau ohono (gan gynnwys platennau, celloedd coch, niwtroffilau ayyb).

Do ☐ Naddo ☐
 Do ☐ Naddo ☐
 Do ☐ Naddo ☐
 Do ☐ Naddo ☐
 Do ☐ Naddo ☐

Os do, at ba ddiben, ac a roddwyd mwy nag un dos? (nodwch faint o bob cynnyrch)

Oes unrhyw dystiolaeth o achosion eraill o haint?
 (e.e. triniaeth gyda chynhyrchion gwaed eraill neu feinwe, ayyb).

Oes ☐ Nac oes ☐

Os 'oes', nodwch y dystiolaeth honno.

Os nad oes modd profi dyddiad yr haint, ydych chi'n credu ei bod yn debygol bod yr haint wedi'i ddal cyn mis Medi 1991?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os 'ydw', esboniwch pam.

Yn ôl y dystiolaeth neu'ch profiad chi, ydy'r ymgeisydd erioed wedi ei drin am, neu wedi ymwneud â, chwistrellu cyffuriau? (Gall hyn gynnwys byw gyda pherson sy'n, neu sydd wedi, chwistrellu cyffuriau neu fod mewn perthynas ag un)

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os 'ydy', rhwch ragor o fanylion

Ydy'r ymgeisydd erioed wedi derbyn triniaeth y tu allan i'r DU?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os 'ydy', nodwch ba driniaeth, ble a phryd.

Oes unrhyw dystiolaeth arall a all effeithio ar hawl yr ymgeisydd i daliad?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os 'oes', nodwch y dystiolaeth honno

Yn eich barn chi, ydy hi'n debygol bod haint firws Hepatitis C yr ymgeisydd wedi ei ddal o ganlyniad i driniaeth gan y GIG a dderbyniwyd cyn mis Medi 1991?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os 'nac ydy', rhowch eich rhesymau

--

Ydy'r ymgeisydd ar restr aros am drawsblaniad?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Ydy'r ymgeisydd wedi cael trawsblaniad iau?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os 'ydy', ar ba ddyddiad y gwnaed y trawsblaniad?

Ydy'r ymgeisydd wedi datblygu cancer sylfaenol yr iau?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os 'ydy', darparwch dystiolaeth i gefnogi hynny yn y blwch isod:

Os yw'r ymgeisydd wedi cael trawsblaniad iau, ar restr aros am drawsblaniad, neu wedi datblygu cancer sylfaenol yr iau, nid oes rhaid cwblhau Adrannau 7-11.

ADRAN 7

HISTOLEG YR IAU

Lle mae biopsi o'r iau eisoes wedi ei wneud yn rhan o reolaeth glinigol yr ymgeisydd, rhowch y manylion canlynol:

Dyddiad y Biopsi

Manylion am yr adroddiad histoleg a'r diagnosis a roddwyd:

Os oes tystiolaeth histolegol o sirosis, nid oes rhaid cwblhau Adrannau 8-11.

Ydy’r ymgeisydd wedi datblygu Lymffoma Cell-B nad yw’n Lymffoma Hodgkin?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ‘ydy’, darparwch dystiolaeth i gefnogi hynny yn y blwch isod:

Os yw’r ymgeisydd wedi datblygu Lymffoma Cell-B nad yw’n Lymffoma Hodgkin, nid oes rhaid cwblhau Adrannau 9-11.

ADRAN 9

MYNEGEION SYML SY’N RHAGWELD SIROSIS

Dylid cwblhau’r adran hon yn achos ymgeisydd nad yw wedi cael biopsi o’r iau, neu sydd heb histoleg ddiweddar o’r iau. Mae eisiau mesuriadau diweddar ailadroddadwy o ddau ensym o’r iau ar gyfer y mynegeion (rhaid bod llai na thri mis rhwng y ddau sampl), sef trosglwyddwyr amino aspartad (AST) a throsglwyddwyr amino alanin (ALT), ynghyd â nifer y platennau.

(Noder: os oes ffactorau a allai effeithio o bosibl ar lefel AST, ALT neu lefel y platennau yn yr ymgeisydd hwn, ar wahân i ffibrosis, nodwch beth y gallai’r rhain fod yn Adran 7. Os yw’r ffactor sy’n dylanwadu yn fwy diweddar, er enghraifft os yw/oedd yr ymgeisydd yn derbyn therapi gwrth-fïrol, yna defnyddiwch ganlyniadau gwaed a gymerwyd cyn neu ar ôl y driniaeth a/neu cwblhewch Adrannau 7 ac 8).

	Canlyniad y Prawf Cyntaf	Canlyniad yr Ail Brawf	Cyfyngiad Uchaf y Dosbarthiad Normal (ULN)
Dyddiad y Gwnaed y Prawf			
AST (IU/L)			
ALT (IU/L)			
Platennau x 10 ⁹ /L			

Y MYNEGEION A GYFRIFWYD

	Y Mesuriad Cyntaf	Yr Ail Fesuriad
APRI		
Cymhareb AST/ALT		

Am ragor o arweiniad ar y mynegeion hyn, gweler tudalen 6 y ffurflen hon. O ran y taliad ar gyfer Hepatitis C Datblygedig, caiff APRI sy’n fwy na 2.0 neu’n gyfwerth ag ef, ag AST/ALT sy’n fwy na 1.0 neu’n gyfwerth ag ef, ei dderbyn fel tystiolaeth debygol o sirosis.

Os yw’r ddau fynegai hyn yn gyfwerth â’r trothwy penodedig neu’n uwch nag ef, nid oes rhaid cwblhau Adrannau 10-11.

Os cewch chi ddau ganlyniad gwahanol gan y mynegeion hyn, neu os yw’r ddau yn is na’r trothwy penodedig, cwblhewch Adrannau 10 ac 11.

(Nodwch: Dylid crybwyll unrhyw arwyddion o orbwysedd portal a/neu dystiolaeth o anghydadferiad hepatic (hepatic decompensation) yn yr adran hon).

(I) STATWS CLINIGOL

Statws Clinigol a Chasgliadau yn dilyn archwiliad o'r corff:

(III) PROFION BIOCEMEGOL A HAEMATOLEGOL ERAILL (OS YDYNT AR GAEL)

Dyddiad y Prawf:

	Canlyniad	Amrediad Normal	
Bilirwbin			µmol/litr
Albwmin			g/l
Globwlin			g/l
Ffosffatas Alcalïaidd			Unedau Rhyngwladol fesul Litr (IU/L)
Alffa-ffetoprotein			IU/ml

Amser Prothrombin		Eiliadau
(Rhowch yr amrediad normal ar gyfer y labordy)		Eiliadau

Unrhyw brofion arbennig a wnaed a all ragweld difrifoldeb y ffibrosis neu bresenoldeb sirosis

Gall rhai clinigwyr fod wedi defnyddio profion eraill i ddod o hyd i ffibrosis (e.e. asid hyalwronig). Dylid disgrifio pob prawf a wnaed isod, gan nodi pa brawf y cafodd ei ddefnyddio, y canlyniadau a'r sail ar gyfer eu dehongli.

(III) UWCHSAIN ABDOMENOL (O'R IAU, DUEG (SPLEEN))

Dyddiad y Prawf:

Adroddiad:

(IV) ELASTOGRAFFEG FYRHOEDLOG (e.e. Fibroscan®)

Dyddiad y Prawf:

Adroddiad:

(Nodwch: Dylid gwneud y prawf hwn wrth i'r claf ymptydio. Rhowch fanylion am Indecs Màs y Corff a chymeriant alcohol yr ymgeisydd a nodwch a oes ganddo/ganddi ddiabetes, gan y gwyddys fod y rhain yn effeithio ar ddarlleniadau elastograffeg fyrhoedlog. Os nad ydych chi wedi gwneud eisoes yn Adran 6, rhowch ganlyniad ALT o'r adeg y cymerwyd y darlleniad elastograffeg fyrhoedlog, gan y gall llid/necrosis ddylanwadu ar anhyblygedd yr iau yn annibynnol ar ffibrosis. Os mai'r archwiliad hwn yw'r unig dystiolaeth o sirosis, darparwch yr adroddiadau gwreiddiol o bob prawf Fibroscan a wnaed dros y tair blynedd diwethaf).

(V) ARCHWILIADAU RADIOLEGOL ERAILL (e.e. MRI, CAT SCAN)

Dyddiad y Prawf:

Adroddiad:

(VI) ENDOSGOPI

Dyddiad y Prawf:

Adroddiad:

(VII) PROFION ERAILL

Rhowch wybod am unrhyw brofion eraill a all fod yn berthnasol.

Os yw Adran 10 wedi ei chwblhau, cwblhewch Adran 11 hefyd.

Dylid cwblhau'r adran hon os mai'r wybodaeth a roddwyd yn Adran 7 yw sail cais yr ymgeisydd. Ei nod yw casglu barn glinigol gyffredinol ynghylch y tebygolrwydd bod yr ymgeisydd wedi datblygu sirosis, yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd yn Adran 7.

Asesiad Clinigol:

Diolch ichi am gwblhau'r ffurflen hon. Mae'n rhaid anfon y ffurflen a phob dogfen ategol yn uniongyrchol i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru

Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru
Canolfan Ganser Felindre
Heol Felindre
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 2TL